Adroddiad Cryno'r Dangosfwrdd Corfforaethol

Portffolio: Pontio a Thrawsnewid

Beth sydd wedi'i gyflawni:

1.1 Mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud gyda'r holl raglenni sy'n gysylltiedig â **dod yn annibynnol** a chael y gallu i derfynu'r ddibyniaeth ar wasanaethau Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth, gan gynnwys cynnydd gyda chwmpasu rhaglenni, datblygu opsiynau, rhai penderfyniadau allweddol, cynllunio prosiectau a chael y rheolwyr prosiect i gyd yn eu lle.

1.2 Mae **Labordy Llanelli** wedi cael achrediad gan Wasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig ar gyfer ei waith dadansoddi metelau a disgwylir iddo fod yn gwbl weithredol ddiwedd Mawrth.

1.3 Rydym wedi cytuno ar ddulliau ar gyfer mesur a sicrhau **arbedion** arian a buddion ariannol ac anariannol posibl arbedion tri-yn-un a byddwn yn sefydlu fframwaith i reoli hyn. Mae cynllun Diswyddo Gwirfoddol Cynnar wedi cael ei roi ar waith a ddylai ryddhau rhwng £2-3M. Bellach, mae gennym Gytundeb Partneriaeth gyda'r Undebau Llafur ac rydym wedi cychwyn prosiect ar y cyd i ddatblygu cynigion i **gysoni Telerau ac Amodau**. Cytunwyd ar gyfleoedd cynnar i **ad-drefnu llety** ynghyd â chynllun i ddatblygu Strategaeth Llety lawn.

1.4 Er mwyn bwrw ymlaen â **dull newydd o reoli adnoddau naturiol**, mae gwaith i sefydlu'r drefn lywodraethu ofynnol ar gyfer dull gweithredu ar sail ecosystemau a rheoli adnoddau naturiol wedi cychwyn. Rydym wedi cysylltu ag awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol ynghylch y dull a sut mae'n cyd-fynd â'r adolygiad o'u Cynlluniau Rheoli hwy.

1.5 Rydym yn anelu at lunio crynodeb annhechnegol o'r dull gweithredu ar sail ecosystemau i'w ddefnyddio'n fewnol a chyda phartneriaid allanol.

1.6 Mae gennym un ymateb i ymgynghoriadau cynllunio ac rydym wedi rhoi prosiect gwella prosesau ar waith ar gyfer y swyddogaeth cyngor cynllunio.

Beth sydd yn dal i'w wneud:

1.7 Yn y man, byddwn yn cwblhau'r gwaith **o ddiffinio a chynllunio'r newidiadau** sy'n ofynnol o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae maint y gwaith hwn yn dod yn amlwg ac mae'n bwysig bod y sefydliad cyfan yn blaenoriaethu'r gwaith hwn ochr yn ochr â chwblhau gwaith beunyddiol. Mae'r Tîm Pontio bron â bod yn gyflawn, ac mae cyflymder y cynnydd yn amlwg wedi cynyddu.

1.8 Nid yw'r **llwybr critigol a fydd yn galluogi'r rhaglen Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** i gyflwyno'r seilwaith ar gyfer rhoi'r gorau i ddefnyddio systemau Asiantaeth yr Amgylchedd erbyn mis Mai 2014 yn gyflawn ar hyn o bryd gan ei fod yn ddibynnol ar gael cynlluniau y cytunir arnynt gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Gobeithir y bydd hyn wedi'i gwblhau erbyn diwedd Awst.

1.9 Mae’r gwaith i ddatblygu’r **gallu i orfodi** yn mynd rhagddo’n dda. Fodd bynnag, mae gwaith brys yn cael ei wneud ar hyn o bryd i ddatrys problemau gydag un o'r systemau cymorth Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu interim.

Adroddiad Cryno’r Dangosfwrdd Corfforaethol

Portffolio: Rheoli pobl

Beth sydd wedi’i gyflawni:

2.1 Er mwyn rheoli niferoedd staff, ac fel rhan o **gynllun gweithlu strategol**, rydym wedi rhoi'r broses Porth ar waith sy’n cytuno ynghylch a all swyddi gwag gael eu llenwi ac awdurdodi hynny. Disgwylir y bydd y cynllun ymadael gwirfoddol yn ariannu 100 aelod staff cyfwerth ag amser llawn i adael y sefydliad yn y flwyddyn ariannol hon. Bydd y cynllun gweithlu strategol yn cael ei ddatblygu yn y cyfnod nesaf.

2.2 I sicrhau bod staff yn cael **hyfforddiant gorfodol**, mae ymchwil ar gyfer archwiliad sgiliau wedi cael ei gwblhau a bydd yr archwiliad yn cael ei lansio ym mis Medi.

Beth sydd yn dal i’w wneud:

2.3 I reoli **lefelau absenoldeb**, rydym wedi casglu data o ddwy system Adnoddau Dynol a'u cysoni yn unol â hynny. Mae rhagor o waith yn cael ei wneud ar hyn o bryd i asesu pa mor gywir a chyflawn yw’r data. Mae’r data wedi cael eu rhannu ar lefel Cyfarwyddiaeth â phob un o'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a bydd rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu i staff a rheolwyr i sicrhau eu bod yn deall ac yn dilyn gweithdrefnau etifeddol rheoli absenoldeb salwch.

2.4 Mae ein nod o leihau **digwyddiadau colli amser** yng nghyswllt iechyd, diogelwch a lles i sero yn uchelgeisiol, ac efallai’n ymddangos yn anghyfforddus. Mae angen gwneud rhagor o waith i sefydlu beth allai fod yn derfyn dibynadwy a chreu diwylliant adrodd agored. Mae’r gwaith yn parhau i ddod â’r tri diwylliant Iechyd a Diogelwch at ei gilydd, a deall y risg Iechyd a Diogelwch ar draws y sefydliad drwyddi draw. Mae gennym bellach Gofrestr Risg Iechyd a Diogelwch cwbl weithredol ar waith a Phwyllgor Iechyd, Diogelwch a Lles sydd wedi cymryd perchnogaeth o'r gofrestr hon ac a fydd yn cytuno ar gamau gweithredu ar gyfer y risgiau.

Adroddiad Cryno’r Dangosfwrdd Corfforaethol

Portffolio: Rheolaeth ariannol

Beth sydd wedi’i gyflawni:

3.1 Mae **lefelau dyled a pherfformiad yng nghyswllt taliadau** yn dal o fewn y targed ac yn gydnaws â blynyddoedd blaenorol. Rydym yn disgwyl i hyn barhau. Rydym wedi llwyddo i leihau’r diffyg agoriadol ar y gyllideb flynyddol. Y pwysau sydd ar ôl yw ar gyfer P Ramorum, y mae cais ar ei gyfer wedi’i gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

3.2 Mae **incwm** yn unol â’r targed, ac mae natur ‘ar y cychwyn’ hyn yn golygu ein bod yn disgwyl i hyn barhau.

3.3 Rydym wedi llwyddo i ddod â thri gwasanaeth **caffael** ynghyd. Mae cyfle heriol o’n blaenau i greu fframweithiau caffael priodol sy’n darparu’r arbedion effeithlonrwydd gofynnol. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid gwahanol, nid dim ond yn sector cyhoeddus Cymru, yn dibynnu ar y sector neu'r fframwaith penodol.

Beth sydd yn dal i’w wneud:

3.4 Mae’r **gwariant** 7.4% (£2.9m) y tu ôl i'r proffil ddiwedd Mehefin. Mae hyn yn bennaf yn y maes prosiect refeniw lle mae llithriant wedi bod yn erbyn cynlluniau prosiectau ac mae wedi cael ei ddangos bod y proffiliau cychwynnol yn anghywir. Mae staff cyllid yn gweithio gyda staff prosiectau yn y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cenedlaethol i gywiro’r proffiliau a gwrthdroi’r llithriant.

Adroddiad Cryno’r Dangosfwrdd Corfforaethol

Portffolio: Safonau’r gwasanaeth

Beth sydd wedi’i gyflawni:

4.1 Mae’r **Ganolfan Gofalu am Gwsmeriaid**, sy’n ymateb i geisiadau am wybodaeth, wedi delio â 13,000 (diwedd Gorffennaf 2013) o ymholiadau, gyda 95% ohonynt wedi cael sylw o fewn y Lefel Gwasanaeth y cytunwyd arno. Rydym wedi sefydlu ac wedi cytuno ar broses fonitro ac adrodd wythnosol gan y Ganolfan Gofalu am Gwsmeriaid yng nghyswllt eu Lefelau Gwasanaeth ar gyfer delio ag e-byst a galwadau. Mae hyn yn cynnwys ffocws ar faterion penodol ar gyfer yr wythnos honno, cwynion a chanmoliaeth yn ogystal â golwg ar ymgyrchoedd a phrosiectau eraill i'r dyfodol y bydd angen rhoi sylw iddynt. I sicrhau bod adnoddau'n cael eu rheoli'n effeithiol a bod lefelau gwasanaeth yn cael eu cynnal, mae'r Prif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cenedlaethol yn cael gwybod am ganlyniadau’r monitro wythnosol hyn.

4.2 Rydym yn dal ar y trywydd i gynnal archwiliad sgiliau **Iaith Gymraeg** yn yr hydref, gyda chynlluniau ar waith i gyflwyno’r Cynllun Iaith Gymraeg a chynnal sesiynau ymwybyddiaeth staff.

4.3 Mae 48 o **gwynion** wedi’u derbyn, y cyfan wedi cael sylw yn unol â gweithdrefn Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac, ar hyn o bryd, does dim cwynion anffurfiol heb eu datrys.

4.4 Mae ein **gwefan** yn safle 78 allan o 300 (diwedd Mehefin 2013) yn ôl trefn rancio Llywodraeth Ganol (Sitemorse)

Beth sydd yn dal i’w wneud:

4.5 Wrth **ddatblygu ein gwasanaeth ar-lein** i gwsmeriaid, mae’r cwmpas yn eang a dibynnir yn helaeth ar Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a Phontio. Efallai y bydd cwblhau ffurf derfynol y Strategaeth Ddigidol, a chytuno arni, gyda’r opsiynau a ffafrir ar gyfer ei chyflawni, yn mynd â ni tu draw i'r targedau presennol o fis Medi ar gyfer y Strategaeth a mis Hydref ar gyfer penderfyniad ar ateb technegol i ddatblygiad y wefan yn yr hirdymor. Rydym yn awr yn adolygu cynnwys y we yn erbyn anghenion y busnes ac yn anelu at flaenoriaethu’r gwaith mudo sy’n weddill.

Adroddiad Cryno’r Dangosfwrdd Corfforaethol

Portffolio: Ansawdd amgylcheddol

Beth sydd wedi’i gyflawni:

5.1 Rydym yn datblygu **Cynllun Dosbarthu Digwyddiadau Cyffredin** newydd i gysoni’r gwaith o gategoreiddio digwyddiadau amgylcheddol difrifol ac i ddeall y wybodaeth am ddigwyddiadau a gasglwyd gan yr hen gyrff. Bydd hyn yn fodd inni ddatblygu dangosydd digwyddiadau priodol ar gyfer 2014/15.

5.2 Rydym wedi sefydlu grŵp i edrych ar straen amgylcheddol sy’n gysylltiedig â'r tywydd sych a chynnes diweddar.

5.3 Rydym yn parhau i gydgysylltu â Ffora Lleol Cymru Gydnerth i rannu gwybodaeth a'r hyn a ddysgir yn ehangach.

5.4 Mae **adolygiadau o ddigwyddiadau** ar gyfer digwyddiadau difrifol ac arwyddocaol yn cael eu hadolygu; fodd bynnag, rydym yn adolygu ein grwpiau digwyddiadau daearyddol i sicrhau bod yr hyn a ddysgir yn cael ei rannu'n effeithiol ar draws y busnes.

5.5 Does dim ceisiadau am **drwyddedau morol** y mae angen cyflwyno Asesiadau o Effaith Amgylcheddol ar eu cyfer wedi cael eu cyflwyno hyd yma. Ond rydym yn gwybod am ddau fater yn y maes hwn a all arwain at geisiadau: pŵer gwres cyfunedig Nwy Naturiol Hylifedig yn Aberdaugleddau, a fferm wynt Atlantic Array. Rydym wedi cytuno ar strwythur tîm trwyddedu morol newydd i sicrhau bod gennym yr adnoddau digonol i gynnal safonau.

5.6 Rydym wedi uno dulliau’r hen gyrff o reoli materion ar **safleoedd o ddiddordeb mawr i’r cyhoedd**. Cafwyd cynnydd yn y baich gwaith yn y maes hwn er gwaethaf adnoddau y mae pendraw iddynt. Rydym wrthi ar hyn o bryd yn datblygu system olrhain ar gyfer rheoli materion. Fel mesur rhagweithiol, rydym wedi dechrau gweithio ar faterion sydd o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd nad ydynt o natur safle benodol ar hyn o bryd. Byddwn yn datblygu arweiniad ar sail yr adborth a geir gan randdeiliaid allweddol.

Beth sydd yn dal i’w wneud:

5.7 Rydym wedi gosod amseroedd targed ar gyfer prosesu **ceisiadau am drwyddedau** ac wedi sefydlu proses gofnodi ac adrodd. Mae hyn yn newydd i sawl system ac mae’r targed o 95% yn uwch nag unrhyw darged a osodwyd gan yr hen gyrff. Profwyd y broses ym mis Mai a’i defnyddio gyntaf i ddarparu adroddiad am y cyfnod i ddiwedd Mehefin. Yn awr mae gan reolwyr ddata cywir i yrru perfformiad eu timau.

5.8 Hyd at ddiwedd Mehefin, darparwyd **709 o ganiatadau/trwyddedau** a hawlenni gyda 637 ohonynt o fewn yr amserlen sy’n cyfateb i 90%. Er bod hyn yn unol â’n proffil disgwyliedig, mae yn is na’r nod yr oeddem yn ei ddisgwyl o 95%. Mae cynlluniau gwella ar waith ar gyfer y systemau hynny sydd yn is na'r nod sydd gennym i sicrhau y bydd yn cael ei gyrraedd erbyn diwedd y flwyddyn adrodd. Darperir adroddiad ar y proffil bob mis.

Adroddiad Cryno’r Dangosfwrdd Corfforaethol

Portffolio: Cydnerthedd amgylcheddol

Beth sydd wedi’i gyflawni:

6.1 Mae cryn waith wedi’i wneud i’n galluogi i siarad ag **un llais** wrth ddarparu tystiolaeth amgylcheddol. Mae cyngor wedi’i ddarparu i Lywodraeth Cymru ar Fforwm Cydsyniadau Ynni Cymru ac mae Bwrdd Prosiect Ynys Ynni wedi’i sefydlu.

6.2 Rydym wedi’n cynnwys yn Grŵp Polisi a Chynllunio Llywodraeth Cymru a’r Grŵp Polisi ar Ddatblygiadau Cysylltiedig a Chydsyniadau Atodol.

6.3 Mae gwaith sylweddol wedi’i wneud i baratoi ar gyfer Ymchwiliad Cyhoeddus Unedig Ffermydd Gwynt Canolbarth Cymru gan barhau i drafod â datblygwyr i ganfod atebion i helpu i fynd i’r afael â materion sy'n weddill, a’u datrys.

6.4 Mae fformat arweiniad a thempledi **cynlluniau rheoli craidd Natura 2000** wedi cael ei adolygu a’i ddiweddaru i adlewyrchu defnydd a dehongliad rhanddeiliaid o'r cynlluniau cyfredol, a chanlyniadau gwaith achos. Rydym yn gweithio’n agos â’r broses Cynllunio Rheoli Basnau Afon dan y Fframwaith Dŵr er mwyn integreiddio’r prosesau cynllunio ar gyfer Natura 2000 a chynlluniau Rheoli Basnau Afon. Bydd y gwaith o adolygu'r cynlluniau’n dechrau ym mis Medi 2013.

6.5 Rydym wedi derbyn tystysgrifau diwygiedig a rhif cadwyn cystodaeth gan Gyngor Stiwardiaeth Coedwigaeth i barhau i **ardystio coetir** Ystad Coetiroedd Llywodraeth Cymru.

Beth sydd yn dal i’w wneud:

6.6 I roi cyngor arbenigol ar y **Gyfarwyddeb Cynefinoedd,** mae swyddogaeth asesu strategol ar waith yn awr yn yr Uned Llywodraethu. Mae hwn ar hyn o bryd yn ystyried cynlluniau, a bydd yn cael ei ymestyn i ddelio â gwaith prosiect. Bydd hyn yn sicrhau trefniadau llywodraethu mewnol, trafod a staffio priodol. Rydym hefyd yn darparu cymorth ynghylch Asesiadau Amgylcheddol Strategol i Lywodraeth Cymru ar eu polisi dŵr sy'n cael ei ddatblygu.

6.7 Rydym yn gysylltiedig â 22 o **Brosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd**. Mae pedwar o'r prosiectau hyn wedi'u derbyn i'w harchwilio yn y chwarter nesaf tra mae 18 yn y cyfnod cyn-ymgeisio. Rydym yn gweithio ar draws meysydd Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio, Gweithrediadau (De, Gogledd a’r Canolbarth) i reoli’r pwysau sy’n gysylltiedig â chyflawni’r pedwar prosiect sydd wedi'u derbyn ar gyfer eu harchwilio.

6.8 Rydym wedi cwblhau 50% o'r ceisiadau am fân gamau cywiro o archwiliad y llynedd i gadw’r ardystiad coetiroedd. Mae nodiadau atgoffa wedi'u cyflwyno a bydd Fforwm Rheoli'r Ystâd yn cwrdd ym mis Medi i sicrhau bod y 50% arall yn cael eu cwblhau cyn yr archwiliad nesaf yn ystod hydref 2013.

6.9 Rydym wedi llwyddo i sefydlu un pwynt cyswllt ar gyfer **ymgynghoriadau cynllunio statudol** gan greu grŵp gweithredu i Gymru gyfan ar gyfer codi materion a'u datrys. Mae'r holl geisiadau am Brosiectau Seilwaith Cenedlaethol eu Harwyddocâd wedi cael eu dyrannu i Gyfarwyddwyr enwebedig a fydd yn cymryd yr awenau i sicrhau y byddant yn cael eu goruchwylio'n briodol. Ond, mae’r system hon ar gyfer ymateb ag un llais i ymgynghoriadau cynllunio yn gofyn am lawer iawn o ymdrech ac mae gwaith yn cael ei wneud gyda staff Pontio i ddatblygu systemau newydd er bod heriau sylweddol o ran systemau technegol i’w hwynebu. Hefyd, rydym yn ychwanegu at yr hyn rydym wedi’i ddysgu i ddatblygu fframwaith gweithredu â blaenoriaethau i gefnogi staff wrth iddynt weithio o fewn diben ehangach Cyfoeth Naturiol Cymru.

6.10 Byddwn yn anelu at ddod â gwasanaethau cynllunio ynghyd rhwng Gogledd a Chanolbarth Cymru ac o fewn Cyfarwyddiaeth De Cymru i sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl ar gyfer gwasanaeth cyson, effeithiol, effeithlon ac integredig, a byddwn yn rhoi newidiadau tymor byr a hirdymor ar waith i sicrhau y byddwn yn cyflawni ein targedau busnes.

Adroddiad Cryno’r Dangosfwrdd Corfforaethol

Portffolio: Menter a swyddi yn seiliedig ar Adnoddau Naturiol

Beth sydd wedi’i gyflawni:

7.1 Mae gwaith adeiladu wedi’i gwblhau yng nghanolfan ymwelwyr Coed y Brenin ac mae arwyddion yn dangos llwybrau yn cael eu gosod ar hyn o bryd. Mae’r targed o 50,000 o **ymwelwyr** wedi’i gyrraedd a’i basio a disgwylir y bydd yr adroddiad chwarterol nesaf, ym mis Medi, yn dangos oddeutu 80,000 o ymwelwyr.

7.2 Enillodd **Llwybr Arfordir Cymru** y Gwpan Jiwbilî Arian nodedig fel y prif enillydd yng Ngwobrau Rhagoriaeth y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol ym maes Cynllunio.

7.3 Mae’r proffiliau ar gyfer cynnig pren i’r farchnad a theneuo coetir yn rhagori ar eu targedau.

7.4 Cafodd **cynllun rheoli drafft ar gyfer Cilfach Tywyn** ei gyflwyno ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Awst 2013. Mynychodd amryw o bartïon â diddordeb gan gynnwys awdurdodau lleol, proseswyr a deiliaid trwyddedau. Mae ymatebion wedi cael eu coladu a'r cynllun wedi'i ddiwygio lle bo'n briodol. Mae'r angen am ail ymgynghoriad yn cael ei ystyried a disgwylir y bydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2013.

7.5 Cyflwynwyd y **Fframwaith Menter** a gyfer datblygu galluoedd menter i’r bwrdd ym mis Gorffennaf ac mae rhagolygon refeniw yn cael eu datblygu. Bydd canfod cyfleoedd menter a'u symud i’r cam ymarferoldeb yn weithgarwch parhaus.

Beth sydd yn dal i’w wneud:

7.6 Cafodd y targed o anfon 11 llythyr cynnig i awdurdodau lleol yng nghyswllt eu **Rhaglenni Gwella Mynediad i’r Arfordir** ei gyrraedd, ond roedd y llythyr terfynol dair wythnos y tu hwnt i’r dyddiad targed o ddiwedd Mehefin.

Adroddiad Cryno'r Dangosfwrdd Corfforaethol

Portffolio: Rheoli Digwyddiadau a Pherygl o Lifogydd

Beth sydd wedi'i gyflawni:

8.1 Er mwyn rheoli **achosion o glefydau a phlâu sy'n bygwth iechyd planhigion**, mae nifer o deithiau awyren cadw gwyliadwriaeth wedi'u cynnal i asesu'r cynnydd sylweddol yn yr ardaloedd lle mae P Ramorum wedi effeithio ar goed Llarwydd.

8.2 Ynghyd â'n partneriaid, rydym wedi mynychu cyfarfodydd rheoli achosion o glefydau yng nghyswllt Chalara a P Ramorum yn ogystal â Dirywiad Difrifol mewn Coed Derw. Rydym wedi trefnu a chynnal 2 seminar Chalara ar gyfer tirfeddianwyr a rheolwyr tir ar y cyd â Forest Research i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa fel y mae a'r opsiynau rheoli ar gyfer y dyfodol. Mae timau gweithrediadau wedi gwneud gwaith cynllunio gofynnol ar safleoedd sydd wedi'u pennu'n safleoedd wedi'u heintio ac mae'r gwaith o dorri coed wedi dechrau mewn rhai mannau ar gyrion yr ardaloedd lle mae achosion o'r haint P Ramorum ac i gynnal treial triniaeth gemegol. Mae rhagor o ddiwrnodau ar y pwnc iechyd coedwigoedd yn cael eu trefnu.

8.3 Mae ein cyllideb Cyfalaf ar gyfer **Perygl Llifogydd** yn £17.6 miliwn eleni, ac yn ddiweddar rydym wedi gwneud cais am £2.0m yn ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru, ac wedi'i gael. Mae dros 150 o brosiectau yn y rhaglen gyfalaf ac isod ceir rhestr o'r cynlluniau a fydd yn lleihau'r perygl o lifogydd i safleoedd eleni.

Project	Houses	Businesses	Status
Ffordd Isa (North)	40		
Prestatyn Tidal Embankment (North)	100		
Crofty (South West)	27		Complete
Higher Ferry (North)	128	145	Complete
Ystradgynlais (South West)	228	16	Complete
Llanfair TH (North)	33		
Pontblydden (North)	15		
Total	**652**	**161**	

8.4 Rydym hefyd yn bwrw ymlaen â chynlluniau mawr yn Y Friog, Abertawe a Phontarddulais a'r gobaith yw cwblhau'r rhain yn 2014/15.

8.5 O bwys arbennig yw **Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Ystradgynlais** (£2.5m) a gwblhawyd ym mis Mai 2013, sy'n lleihau'r perygl o lifogydd i 228 o gartrefi a 16 o fusnesau. Cafodd y waliau atal llifogydd eu dylunio i adlewyrchu cymeriad lleol pob lleoliad drwy ddefnyddio deunyddiau a thechnegau adeiladu gwahanol. Roedd y canlyniadau amgylcheddol yn cynnwys gweirglodd gwlyptir bychan ac 20 o flychau nythu ar gyfer adar ac ystlumod, a wnaethpwyd gan grŵp gwirfoddol, a'u gosod mewn gwarchodfa natur leol.

8.6 Mae 603 safle arall wedi cofrestru ar gyfer **Gwasanaeth Uniongyrchol Llinell Rybuddion Llifogydd**. Dyma wasanaeth rhad ac am ddim sy'n anfon neges uniongyrchol i bobl pan allai llifogydd effeithio ar eu heiddo. Mae hyn yn golygu bod 57.2% o safleoedd mewn perygl wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth hwn. (Y gwir ffigurau yw 93,499 eiddo wedi cofrestru a 163,356 eiddo mewn perygl). Rydym

ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed o 2,380 yn rhagor o safleoedd wedi cofrestru erbyn diwedd y flwyddyn, sef ein targed o 58.2%. Bydd y gwaith o hyrwyddo'r gwasanaeth hwn yn parhau.

8.7 I reoli'r perygl o **lifogydd o ymchwydd y llanw** rydym yn rhoi mynediad at fapiau llifogydd o'r môr i Fforymau Lleol Cymru Gydnerth.

8.8 Ers sefydlu **Gwasanaeth Darogan Llifogydd** gweithredol ym mis Medi 2006, rydym wedi ymestyn cwmpas ein gwasanaeth darogan llifogydd mewn cymunedau ac wedi ychwanegu 23 lleoliad arfordirol newydd ar hyd arfordir De Orllewin a Gogledd Cymru sydd mewn perygl o hyrddiadau storm a/neu donnau'n dod drosodd. Rydym yn parhau i weithio gyda UK Coastal Monitoring and Forecasting i ddeall yn well y gallu i ddarogan a'r ansicrwydd wrth ddarogan hyrddiadau storm ar gyfer Aber Afon Hafren a sicrhau bod unrhyw welliannau a bennir yn cael eu blaenoriaethu a'u datblygu.

Beth sydd yn dal i'w wneud:

8.9 Wrth reoli achosion o **glefydau a phlâu sy'n bygwth iechyd planhigion** rydym wedi cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chynnig i reoli P Ramorum dros y degawd nesaf. Mae hyn yn rhan o drafodaethau sy'n parhau i ddatblygu strategaeth rheoli'r clefyd P Ramorum. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am Bolisi Iechyd Coed a ni sy'n eu cynghori ar ddatblygu Cynlluniau Rheoli Clefydau. Nes y bydd y cais a'r trafodaethau wedi'u cwblhau, y dull a fydd yn cael ei ddefnyddio fydd rheoli ar gyrion ardal y clefyd lle bydd y gwaith o arafu'r clefyd yn fwyaf effeithiol. Mae hyn yn golygu y bydd y clefydau yng ngogledd a chanolbarth Cymru yn cael eu rheoli yn unol â'r strategaeth bresennol, tra mae'r dull yn Ne Cymru yn dibynnu ar y trafodaethau sy'n parhau gyda Llywodraeth Cymru**.**

Adroddiad Cryno’r Dangosfwrdd Corfforaethol

Portffolio: Iechyd, lles a chynnwys cymunedau

Beth sydd wedi’i gyflawni:

9.1 Rydym wedi gwneud cynigion i bob awdurdod lleol ar gyfer eu **Rhaglenni Gwella Hawliau Tramwy** ac mae adroddiadau allbwn blynyddol yn cael eu paratoi ar gyfer y flwyddyn flaenorol.

9.2 Mae Forest Research wedi cwblhau cyfnod casglu data **iTree** Eco yn llwyddiannus ac mae'r gwaith dadansoddi'n cael ei wneud ar hyn o bryd. Mae arian ychwanegol wedi’i sicrhau i gefnogi astudiaeth i fanteision hirdymor cynnal astudiaethau iTree Eco. Byddwn yn profi effeithiau ymarferol yr asesiad iTree fel rhan o astudiaeth yn Wrecsam drwy gomisiynu ymchwil i ganfod unrhyw newidiadau mewn agweddau tuag at goed trefol, y farn am y cyfraniadau y mae fforestydd trefol yn eu gwneud at gyflwyno gwasanaethau ecosystem, polisi, neu drefniadau sefydliadol. Byddwn hefyd yn parhau i drafod gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Sir Ceredigion ynghylch rhaglenni plannu coed trefol yn y dyfodol.

9.3 Ddiwedd Mehefin mae 5839 o bobl yn fwy parod ar gyfer llifogydd drwy ein gwaith **Ymwybyddiaeth Llifogydd Cymru**. Mae’r paratoi yn cynnwys bod â chynllun llifogydd; gwirfoddoli fel Arweinydd y Cynllun Llifogydd ar gyfer eu Cymuned a/neu gofrestru i dderbyn Rhybuddion Llifogydd a gwybod sut i ymateb iddynt.

9.4 Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn berchen ar 4035 o **asedau perygl llifogydd**, ac yn eu cynnal, yn ychwanegol at archwilio 2154 o asedau trydydd parti eraill. £5.6m yw’r gyllideb ar gyfer gwaith cynnal a chadw i reoli perygl llifogydd. Ddiwedd Mehefin mae 98.2% o asedau perygl llifogydd mewn systemau canlyniadau difrifol yn eu cyflwr targed. Mae angen gwella cyflwr 30 ased arall i gyflawni’r targed o 99%. Mae rhestrau o asedau perthnasol gan y timau cyflawni lleol i osod contractau cyflawni ar gyfer y gwaith gofynnol.

Beth sydd yn dal i’w wneud:

9.5 O ran cyflenwi'r Prosiect **Dewch Allan!**, rydym ar ei hôl hi yn comisiynu ymgynghorwyr i roi Cynllun Monitro a Gwerthuso ar waith. Rydym wedi sefydlu tasglu i edrych yn benodol ar y rhan hwn o’r prosiect a'i gael yn ôl ar y trywydd iawn. Ond, mae cynnydd da wedi’i wneud gydag elfennau eraill o’r prosiect ac rydym wedi cynnal gweithdai ar gyfer Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf ym Mhentrefi Trefol Wrecsam, Dwyrain Casnewydd a Gorllewin Caerdydd. Daeth nifer dda i'r cyfarfodydd a chynhyrchwyd cyfres o 'gynigion' prosiect i'w rhoi gerbron cymunedau lleol. Rydym wedi cynnal ymarferion cwmpasu ac wedi sefydlu cronfeydd data o bartneriaid allweddol a fydd yn cael eu gwahodd i weithdai yng Ngwynedd, Y Barri, a Gorllewin Canol y Cymoedd (Caerffili). Rydym wedi cychwyn y prosesau cwmpasu ym Merthyr Tudful, Abertawe a Rhondda Cynon Taf.

Adroddiad Cryno’r Dangosfwrdd Corfforaethol

Portffolio: Deall ein heffaith

Beth sydd wedi’i gyflawni:

10.1 Mewn ymateb i’r datganiad gan y Gweinidog ar **Ardaloedd Morol Gwarchodedig**, mae gweithgor wedi'i sefydlu i wneud gwaith ar ddadansoddi bylchau, sy’n cynnwys cynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru. Mae cysylltiad hefyd yn cael ei gynnal â'r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur.

10.2 Mae’r Cyd-bwyllgor wedi gosod contract i ganfod ardaloedd lle ceir niferoedd mawr yn gyson o Lamhidyddion Harbwr (a dolffiniaid trwyn potel) yn nyfroedd y DU.

10.3 Mae gwaith i **ymestyn ffiniau nythfeydd mewn Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig** yn mynd rhagddo ac mae paratoadau ar y gweill i ymgynghori ar hyn yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Rydym yn parhau i weithio gyda’r Cyd-bwyllgor ar faterion cysylltiedig.

10.4 Ein nod yw cytuno ar raglen waith gyda Llywodraeth Cymru ar gyfer Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig morol ym mis Medi a chwblhau cyfrif o rwydweithiau Ardaloedd Morol Gwarchodedig a rhestr nodweddion erbyn mis Rhagfyr.

10.5 Byddwn hefyd erbyn mis Hydref yn llunio adroddiad ar ein rôl yn rheoli adnoddau a chynllunio morol, gan gynnwys y sylfaen dystiolaeth sydd ar gael.

10.6 Mae gennym Ddatganiad Polisi Amgylcheddol gyda Thargedau ac Amcanion y cytunwyd arnynt sy'n cael eu harddangos ymhob swyddfa. Rydym wedi cael **achrediad ISO 140001** ar gyfer 2013 ar gyfer dwy o’r elfennau etifeddol. Disgwylir i’r elfen olaf gael ei harchwilio ym mis Medi a'i gwblhau erbyn mis Tachwedd.

Beth sydd yn dal i’w wneud:

10.7 Mae’r gwaith o ddatblygu’r **System Rheoli Amgylcheddol** yn mynd rhagddo'n dda a dylai gael ei gwblhau erbyn 31 Rhagfyr er mwyn gallu cynnal yr archwiliad allanol cyn 31 Mawrth 2014. Er bod gan y tri hen gorff achrediad ISO 14001, mae llawer o waith i'w wneud o hyd i gyflawni hyn ar gyfer ein System Rheoli Amgylcheddol newydd, yn enwedig cyfuno ein gwaith o adrodd ar ddata a mesuriadau. Mae’r gwaith o gaffael archwilydd allanol i gynnal yr achrediad ar y gweill a disgwyliwn iddo fod yn ei swydd erbyn mis Tachwedd 2013.